Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



# Diogelwch Ar-lein Adnoddau

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae’r adnoddau hyn wedi’u casglu ynghyd i’ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant  Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i’ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen.

Os ydych chi’n edrych ar adnodd sydd wedi’i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

# Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



# Tudalennau gwe defnyddiol

Mae **Learn My Way** yn wefan a grëwyd gan y Good Things Foundation sy'n darparu cyrsiau dysgu byr am ddim i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau digidol. Mae ganddyn nhw byncaiu diogelwch ar-lein cryno sy'n addas ar gyfer dechreuwyr sydd heb unrhyw sgiliau digidol neu sgiliau digidol isel: **https://www.learnmyway.com**

Mae **Get Safe Online** yn dudalen we cyngor diogelwch ar-lein ddefnyddiol a gymeradwyir gan lawer o sefydliadau sy’n ymwneud ag atal seiberdroseddu: **https://www.getsafeonline.org**

I adrodd am seiberdroseddu, neu ofyn am gyngor, siaradwch ag **Action Fraud** - y Ganolfan Adrodd am Dwyll a Seiberdroseddu Genedlaethol:
**https://www.actionfraud.police.uk/**
neu ffoniwch **0300 123 2040**

| SGANIWCH FI | SGANIWCH FI | SGANIWCH FI |
|---|---|---|
| Learn My Way | Get Safe Online | Action Fraud |

# Gwirio bod gwefan yn ddiogel

Defnyddiwch wefannau ar gyfer cwmnïau sy'n gyfarwydd i chi, pan fyddwch chi'n dechrau llywio'r rhyngrwyd.

Gwiriwch fod gan gyfeiriad y wefan glo clap a https.




Defnyddiwch wiriwr gwefan i wirio eich gwefan am broblemau diogelwch os ydych chi'n ansicr: **https://bit.ly/3RMr7PJ**.

SGANIWCH FI



# Crëwch gyfrifon ar-lein diogel

Mae creu cyfrif diogel ar-lein yn bwysig er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol.

1 Crëwch **gyfrinair diogel**. Rydym yn defnyddio'r rheol cyfrinair 3 gair i gyfuno 3 gair digyswllt i gyfrinair cryf. Profwch ef drosoch eich hun gan ddefnyddio'r offeryn gwirio cyfrinair hwn: **https://bit.ly/3wPHgdp**

SGANIWCH FI

2 Amddiffynnwch eich dyfeisiau clyfar trwy ychwanegu **cod mynediad** cofiadwy er mwyn datgloi a defnyddio'r ddyfais. Felly, dim ond y rhai sy'n gwybod y cod mynediad sy'n gallu codi eich dyfais a'i defnyddio.

3 Gallwch hefyd ddefnyddio **dilysu 2-ffactor** ar lawer o wahanol wefannau a chyfrifon, i'w gwneud yn fwy diogel. Mae hyn yn golygu, ar ôl i chi fewnbynnu eich cyfrinair, bod cod mynediad ar wahân yn cael ei anfon i'ch dyfais cyn y gallwch chi fewngofnodi. I gael rhagor o wybodaeth am ddilysu 2-ffactor, ewch i: **https://bit.ly/3xZwVim**

SGANIWCH FI

# Cadwch eich dyfais yn gyfoes

Y ffordd orau o osgoi firysau a thoriadau diogelwch yw trwy ddilyn camau diogelwch rhyngrwyd, a pharhau i fod yn wyliadwrus o bethau fel e-byst gwe-rwydo, gwefannau ffug, a ffenestri naid.

Mae'r rhan fwyaf o ddyfeisiau digidol modern yn gosod diogelwch gwrthfeirysau drwy ddiweddariadau. Dyna pam ei bod hi'n bwysig sicrhau eich bod yn cadw'ch dyfeisiau a'ch apiau'n gyfredol. Gallwch ddarllen mwy am hyn yma: **https://bit.ly/4cQizjw**

SGANIWCH FI

# Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/

0300 111 5050

Dewch o hyd i ni ar

Mae Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.